

Kintsugi fel Athroniaeth Addysgegol

Trwsio, Amherffeithrwydd, a Sylw Moesegol yn yr Ystafell Ddosbarth

Prosiect Tokyo Astudiaeth Achos 5

Williamson-Dicken, M., Blackmore, R., Childs, D., Phillips, N., Powles, A., Soper, C. a Stokes, M. (2025)

Mae Kintsugi (金継ぎ), y grefft Japaneaidd o drwsio cerameg sydd wedi torri gyda lacr a phowdr aur, yn cynnig ffrâm athronyddol ac ymarferol gyfoethog ar gyfer ailfeddwl ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae gwreiddiau Kintsugi mewn estheteg wabi-sabi, sy'n gwerthfawrogi ansefydlogrwydd, amherffeithrwydd, ac anghyflawnder, ac mae'n ail-fframio torri fel rhan weladwy a gwerthfawr o hanes bywyd gwrthrych (Juniper, 2003; Koren, 1994). Pan gaiff hyn ei drosi i fyd addysg, mae Kintsugi yn dod yn drosiad ac yn ddull ar gyfer dylanwadu ar ddiwylliannau dysgu sy'n anrhydeddu dysgu trwy gamgymeriadau, yn rhoi blaenoriaeth i drwsio, ac yn meithrin gofal perthynol. Mae'r astudiaeth achos hon yn datblygu'r cysylltiadau hynny ac yn tynnu sylw at oblygiadau pendant i athrawon sy'n gweithio ar lawr yr ystafell ddosbarth.

Sylfeini Esthetig: Gwneud Camgymeriadau'n Weladwy ac yn Werthfawr

Mae prif gynnig gysyniad Kintsugi yn fwriadol wrth-reddfol i ddiwylliannau addysgol sy'n gwobrwyo cymhwysedd di-dor: nid yw'r ffaith fod gwrthrych wedi cael ei drwsio'n yn cael ei chuddio; mae ei holltau yn cael eu hamlygu ag aur ac felly maen nhw'n dod yn bwyntiau i ddangos hanes y gwrthrych. I addysgwyr mae hyn yn ffordd bwerus o ail-fframio camgymeriadau. Yn lle bod yn stigma preifat i'w ddileu trwy adborth cywirol neu asesiadau lle mae yna lawer i'w ddysgu, mae gwallau'n dod yn olion gweladwy o waith gwybyddol ac yn farciau y gellir eu darllen, eu trafod a dysgu oddi wrthynt.



Mae syniad Claxton o adeiladu pŵer i ddysgu ac ymchwil Boaler i rôl gynhyrchiol gwallau mathemategol yn cefnogi safiad o'r fath, gan ddangos bod dysgwyr sy'n ymgysylltu ag ansicrwydd ac anhawster yn datblygu sgiliau dyfalbarhad a dealltwriaeth gysyniadol ddyfnach (Claxton, 2002; Boaler, 2016). Mae ymchwil diweddar yn yr ystafell ddosbarth yn dangos bod ymddygiadau athrawon sy'n modelu bregusrwydd ac yn normaleiddio adolygu ac ailddrafftio yn cynyddu parodrwydd dysgwyr i gymryd risgiau deallusol ac i barhau i ymdrechu (Kroeper, 2022; Slater, 2024). Mae trosi Kintsugi yn ymarfer bob-dydd felly yn golygu newid yr hyn sy'n cael ei arddangos, ei drafod a'i asesu: mae athrawon yn gwneud y prosesau camgymeriad a thrwsio yn weladwy trwy flaenoriaethu gwaith drafft, anodi newidiadau, a defnyddio tasgau ffurfiannol sy'n gofyn i ddysgwyr esbonio sut mae eu ffordd o feddwl wedi newid gydag amser. Trwy wneud hynny, mae gwythiennau gweladwy yn dod yn arteffactau pedagogaidd sy'n cefnogi metawybyddiaeth a normau cyfunol o amgylch brwydr gynhyrchiol i lwyddo.

Dimensiynau Moesegol: Trwsio fel Ymarfer Perthynol

Nid ymarfer esthetig yn unig yw Kintsugi; mae'n foesegeol gofal. Mae'r grefft yn gofyn am alinio darnau yn amyneddgar, gosod haenau o lud yn ofalus, a rhoi amser i'r lacr galedu. Mae hyn yn tynnu sylw at safiad moesol yn erbyn taflu unrhyw beth i ffwrdd. Yng nghyd-destun yr ysgol, mae moeseg o'r fath yn cyseinio ag addysgeg sy'n ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar ofal sy'n blaenoriaethu diogelwch a pharhad perthynol (Van der Kolk, 2014; Nodings, 2012). Lle mae ymatebion sy'n cosbi ac yn allgau yn torri cysylltiadau perthynol, mae arferion sy'n canolbwyntio ar drwsio yn cynnal y cysyniad o berthyn. Mae gweithredu Kintsugi yn foesegeol mewn ystafelloedd dosbarth felly yn golygu

ailgyfeirio ymatebion disgyblaethol a bugeiliol ynghylch adfer. Mae sgysiau adferol, cymodi mewn ffordd sydd wedi'i hwyluso (naill ai gan yr athro neu'r dysgwyr eu hunain), a threfnau strwythuredig ar gyfer trwsio ar ôl camgymeriadau, yn gosod prosesau sy'n dysgu cyfrifoldeb, empathi, a llafur trwsio perthnasoedd yn lle sancsiynau. Mae'r cyfeiriadedd hwn yn cydnabod nad gweithred adferol sengl yw trwsio ond yn hytrach llinyn addysgol sy'n gofyn am amser, arferion wedi'u sgaffaldu, a chefnogaeth sefydliadol; pan gaiff hyn ei gynnal, mae'n addysgu dysgwyr sut i roi sylw i niwed, derbyn cyfrifoldeb, a chyd-adeiladu ymddiriedaeth.

Cyseiniant Diwylliannol: Arteffactau Bob Dydd a Gwerth Defnyddio

Mae tarddiad Kintsugi yn y seremoni 'te' yn taflu golau ar ddiwylliant sy'n gwerthfawrogi gwrthrychau oherwydd hanes eu defnyddio a'u gofal. Yn chanoyu, mae offer wedi'u trwsio yn cael eu gwerthfawrogi am y straeon y mae eu creithiau yn eu hadrodd; mae'r marciau yn dystiolaeth o barhad rhwng pobl, digwyddiadau, ac arferion bob dydd (Sen, 1979). Gall ysgolion fabwysiadu gwerthfawrogiad tebyg ar gyfer olion materol dysgu. Yn hytrach na thrin llyfrau nodiadau, tasgau drafft, arddangosfeydd yn yr ystafell ddosbarth ac arteffactau grŵp fel allbynnau dros dro, gall athrawon adeiladu arferion pedagogaidd sy'n cadw'r olion hyn fel cof cymunedol a thystiolaeth o lafur deallusol. Mae portffolios sy'n cadw drafftiau wedi'u hanodi ac arteffactau sy'n dogfennu datrys problemau, ac sy'n gwerthfawrogi prosesau yn hytrach na darnau gorffenedig perffaith, i gyd yn gweithredu o'r rhesymeg hon. Mae gwneud hynny'n cysylltu'r cwricwlwm â hanesion byw dysgwyr, gan ganiatáu i wybodaeth yn yr ystafell ddosbarth gael ei darllen fel rhan o fywgraffiad cymunedol sy'n esblygu a thrwy hynny gryfhau'r ymdeimlad o berthyn a stiwardiaeth (Hoque, 2023).

Meddylfryd Twf ac Addysgeg Camgymeriadau

Mae Kintsugi yn ymestyn theori meddylfryd twf Carol Dweck ac yn ategu ato, trwy ddarparu model esthetig-foesegol ar gyfer sut y gall ystafelloedd dosbarth anrhydeddu ymdrechion i lwyddo. Mae canfyddiadau Dweck yn dangos bod credoau am hyblygrwydd gallu yn siapio dyfalbarhad a'r ffordd y dehonglir anhawster; pan fydd dysgwyr yn dehongli camgymeriadau fel camau addysgiadol yn eu datblygiad yn hytrach nag arwyddion o fethiant, maent yn mabwysiadu strategaethau addasol ac yn cynnal yr ymdrech (Dweck, 2006; Yeager a Dweck, 2012). Mae Kintsugi yn ychwanegu at hyn trwy ddangos sut y gall trwsio mewn ffordd weledol a chymunol fod yn fecanwaith cyfarwyddo sy'n sgaffaldu fframiau dehongli dysgwyr. Lle mae yna berygl i ddatganiadau syml am feddylfryd twf deimlo'n wag os nad ydynt yn cyd-fynd ag ymarfer, mae trosiad Kintsugi yn gofyn am arteffactau gweladwy ac arferion cymdeithasol sy'n ymgorffori'r neges: mae gwallau yn cael eu gweld, eu disgrifio a'u trawsnewid yn enillion dysgu.

Mae gwaith empirig yn egluro sut y dylid gweithredu'r dull cyfunol hwn. Mae canmoliaeth ac adborth sy'n targedu proses, strategaeth a chamau cywiro (yn hytrach na thrwsio yn unig) yn creu ymatebion mwy gwydn i anawsterau (Kroeper, 2022; Yeager et al., 2022). Mae ymyriadau sy'n canolbwyntio ar dwf yn cael yr effaith fwyaf pan fyddant wedi'u hymgorffori mewn ecosystemau dosbarth lle mae'r iaith ynghylch ymdrechu dros lwyddiant a'r arferion adolygu yn digwydd fel mater o drefn, pan fydd tasgau lle nad oes fawr o risg yn caniatáu methiant cynhyrchiol, a phan fydd polisiau'r sefydliad yn dangos bod adolygu a thrwsio yn elfennau sy'n cael eu gwerthfawrogi (Yeager et al., 2019).



Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i athrawon wau nifer o arferion sy'n cyd-fynd â'i gilydd i fywyd bob dydd: gan fodelu datrys problemau sy'n cynnwys dechrau anghywir a mireinio; a strwythuro tasgau fel bod ymdrechion cynnar yn ffurfiannol, ac adolygu yn ofynnol, ac yn cael ei wobrwyo; addysgu dysgwyr i anodi camgymeriadau gydag awgrymiadau sy'n sicrhau bod y wers yn glir ("Beth ddysgais i o'r ymgais hon? Beth fydda i'n trio nesaf?"); a dylunio systemau adborth cymheiriaid sy'n gwobrwyo strategaeth a'r camau nesaf yn hytrach na dim ond cywirdeb. Pan fydd yr arferion hyn yn cael eu cyfuno â gwersi tryloyw am niwroplastigrwydd, sy'n dangos sut mae ymarfer ac adborth sy'n cywiro yn newid rhwydweithiau'r ymennydd, mae dysgwyr yn cael y rhesymeg a'r drefn i gofleidio anhawster (Boaler, 2016).

Mae ymestyn cysylltiad meddylfryd twf Kintsugi i mewn i waith ecwiti yn gofyn am ystyriaeth bellach. Mae ail-fframio creithiau fel tystiolaeth yn cynnig adnodd penodol ar gyfer cydnabod gwytnwch diwylliannol a chymdeithasol dysgwyr sydd ar yr ymylon. Mae Toldson (2024) yn dadlau y dylai addysgwyr "ddathlu'r aur" trwy werthfawrogi gwybodaeth a sgiliau a ddysgwyd trwy brofiadau anodd a strategaethau a ddysgwyd o gamgymeriadau, trawma a dyfalbarhad yn hytrach na dehongli bylchau

mewn perfformiad fel diffygion. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu dylunio tasgau sy'n caniatáu i ddysgwyr gysylltu ymchwilad disgyblaethol â llythrennedd cymunedol, gan ddarparu llwybrau adolygu sy'n gwerthfawrogi ymgeisio strategol, a sicrhau bod negeseuon am ymdrech a thwff yn cael eu cyflwyno mewn cyd-destunau sy'n berthynol ddiogel lle cydnabyddir hanesion emosiynol dysgwyr (Van der Kolk, 2014; NEU, 2024). Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth yn rhybuddio bod gwaith meddylfryd heb gefnogaeth gyd-destunol yn gyfyngedig: gall negeseuon heb gyd-destun greu fawr o newid, tra bod rhaglenni integredig (lle mae arferion adborth, dylunio asesiadau, iaith athrawon a signalau'r sefydliad yn cyd-fynd â'i gilydd) yn creu gwelliannau mesuradwy mewn dyfalbarhad a chyrhaeddiad (Yeager et al., 2019; Yeager et al., 2022). Mae methodoleg Kintsugi yn helpu athrawon i osgoi siarad arwynebol am dwf trwy fynnu ar arferion trwsio gweladwy a thrwy sicrhau bod seilwaith cymdeithasol y gefnogaeth yn eglur ac yn weladwy i ddysgwyr.

Goblygiadau Epistemolegol: Gwybodaeth Wedi'i Thorri a'i Thrwsio

Mae Kintsugi yn annog athrawon i ailystyried epistemoleg yn yr ystafell ddosbarth. Yn hytrach na ffafrio taith esmwyth o anwybodaeth i feistrolaeth, mae Kintsugi yn awgrymu bod gwybodaeth yn aml yn destun newid, trafod, ac ailadeiladu trwy gyfnodau o chwalu a thrwsio. Mae model deialog Freire a phersbectifau adeiladol cyfoes yn blaenoriaethu dysgu fel ymarfer (gweithredu, myfyrio, a gweithredu diwygiedig) ac mae Kintsugi yn darparu trosiad materol ar gyfer y cylch hwnnw (Freire, 1970). Wrth ddylunio'r ystafell ddosbarth, mae'r persbectif hwn yn cefnogi unedau ymholiad gyda phwyntiau gwirio adolygu wedi'u hadeiladu i mewn ac arferion metagwybyddol sy'n gofyn i ddysgwyr fynegi sut mae eu ffordd o feddwl wedi newid, a datrys problemau mewn ffordd gydweithredol fel bod y broses drwsio gysyniadol yn gyhoeddus. Pan fydd dysgwyr yn dogfennu eu llwybr dysgu gydag awgrymiadau fel "Roeddwn i'n arfer meddwl... nawr dw i'n meddwl... oherwydd...", mae'r ystafell ddosbarth yn cynhyrchu olion darllenadwy o'r trwsio epistemig sy'n dystiolaeth ar gyfer asesu ac fel arteffactau diwylliannol sy'n dangos bod twf deallusol yn anhrefnus, yn gymdeithasol ac yn foesol (Badenhorst, 2018; Keulemans, 2016).

Kintsugi fel Fframwaith ar gyfer Ystafelloedd Dosbarth Ffyniannus

Mae methodoleg Kintsugi yn rhoi athroniaeth integreiddiol i athrawon sy'n cyfuno gwerthfawrogiad esthetig o amherffeithrwydd, ymrwymiad moesegol i drwsio, a strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi dysgu o gamgymeriadau. Pan gaiff ei weithredu'n feddylgar ac yn systemig, mae ymarfer sydd wedi'i oleuo gan Kintsugi yn sicrhau bod gwythiennau'r dysgu yn weladwy, yn cefnogi trwsio perthynol cadarn, ac yn integreiddio adborth ac asesu sy'n canolbwyntio ar dwf o fewn addysgeg bob-dydd. I athrawon, mae'r negeseuon ymarferol yn glir: mae angen trin gwallau fel data addysgu gweladwy, mae angen dylunio a diogelu arferion ar gyfer trwsio ac adolygu, ac mae angen cynnal seilwaith perthynol sy'n galluogi dysgwyr i adolygu, adfer a ffynnu.

Cyfeirnodau

Badenhorst, P. (2018) *Kintsugi and Processes of Productive Damage: The Values of Embodiment and Emotion for Antiracism Work in Education*. Traethawd estynedig ar gyfer PhD, Pennsylvania State University. Ar gael ar: https://etda.libraries.psu.edu/files/final_submissions/17722 (Darllenwyd: 2 Tachwedd 2025)

Boaler, J. (2016) *Mathematical Mindsets: Unleashing Students' Potential through Creative Math, Inspiring Messages and Innovative Teaching*. San Francisco: Jossey-Bass

Claxton, G. (2002) *Building Learning Power: Helping Young People Become Better Learners*. Bryste: TLO Ltd

Dewey, J. (1938) *Experience and Education*. Efrog Newydd: Macmillan

Dweck, C.S. (2006) *Mindset: The New Psychology of Success*. Efrog Newydd: Random House

Dweck, C.S. (2019) 'The Choice to Make a Difference', *Educational Leadership*, 77(2), tt. 24–30

Freire, P. (1970) *Pedagogy of the Oppressed*. Efrog Newydd: Herder and Herder

Hoque, N. (2023) 'Culturally responsive pedagogy: honoring student histories in classroom practice', *International Journal of Inclusive Education*, 27(8), tt. 1023–1039

Juniper, A. (2003) *Wabi Sabi: The Japanese Art of Impermanence*. Boston: Tuttle Publishing

Keulemans, S. (2016) 'Repair as pedagogy: material culture and transformative practice', *Journal of Material Culture in Education*, 4(1), tt. 45–62

Koren, L. (1994) *Wabi-Sabi for Artists, Designers, Poets & Philosophers*. Point Reyes: Imperfect Publishing

Kroeper, K. (2022) 'Teacher behaviours that signal growth: classroom evidence and implications', *Teaching and Teacher Education*, 110, Erthygl 103635

McInerney, P. and McKlindon, A. (2021) 'A restorative approach to classroom conflict and behaviour', *Pastoral Care in Education*, 39(3), tt. 210–227

NEU (2024) *Guidance on trauma-informed approaches in schools. National Education Union guidance briefs*. Llundain: NEU

Sen, S. (1979) *Chado: The Way of Tea*. Tokyo: Tankosha

Slater, A. (2024) 'Tolerance for error and classroom design: strategies for resilience', *Journal of Educational Practice*, 18(2), tt. 77–95

Smeenck, T. (2021) *Deconstructing the Future: Kintsugi's Metaphorical Strength in Futures Thinking for Sustainability*. Traethawd estynedig ar gyfer gradd Meistr, Prifysgol Lund. Ar gael ar: <https://lup.lub.lu.se/student-papers/record/9044229> (Darllenwyd: 2 Tachwedd 2025)

Toldson, I. (2024) *From Scars to Wholeness: A Kintsugi Approach to Academic Equity and Excellence*. Ar gael ar: <https://www.linkedin.com/pulse/from-scars-wholeness-kintsugi-approach-academic-equity-ivory-toldson-nlxke/> (Darllenwyd: 2 Tachwedd 2025)

Van der Kolk, B. (2014) *The Body Keeps the Score: Brain, Mind, and Body in the Healing of Trauma*. Efrog Newydd: Viking

Yeager, D.S., Hanselman, P., Walton, G.M., Murray, J.S., Crosnoe, R., Muller, C., Tipton, E., Schneider, B., Hulleman, C.S., Hinojosa, C.P., Paunesku, D., Romero, C., Flint, K., O'Brien, K., Paluck, E.L. and Dweck, C.S. (2019) 'A national experiment reveals where a growth mindset improves achievement', *Nature*, 573, tt. 364–369

Yeager, D.S., Lee, H.Y. and Smith, J. (2022) 'Contextualizing growth mindset: strategies for embedding mindset in classroom systems', *Review of Educational Research*, 92(1), tt. 1–34

Yeager, D.S. and Dweck, C.S. (2012) 'Mindsets That Promote Resilience: When Students Believe That Personal Characteristics Can Be Developed', *Educational Psychologist*, 47(4), tt. 302–314. doi:10.1080/00461520.2012.722805